



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG50101

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer Cynllunio Morol

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyflwyno Hysbysiad
Cynllunio Morol sy'n nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer ynni
ffrwd lanw, fel rhan o waith cynllunio morol i Gymru

Awst 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyflwyno Hysbysiad Cynllunio Morol sy'n nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer ynni ffrwd lanw, fel rhan o waith cynllunio morol i Gymru. Hoffem ddiolch i'r holl ymatebwyr am rannu eu barn gyda ni.

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiwn print bras, Braille ac ieithoedd amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: cynlluniomorol@llyw.cymru

Copiâu ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: [Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer Cynllunio Morol / LLYW.CYMRU](#)



Cynnwys

Cynnwys.....	1
Cyflwyniad.....	2
Cynnig.....	2
Ymgysylltu.....	2
Trosolwg o'r ymatebion	3
Crynodeb o'r ymatebion	3
Casgliad	10
Camau nesaf.....	11
Rhestr o'r ymatebwyr	13

Cyflwyniad

Agorodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar 13 Mawrth 2024 ar gynigion ar gyfer cyflwyno Hysbysiad Cynllunio Morol (MPN) sy'n nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRAs) ar gyfer ynni ffrwd lanw.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 5 Mehefin 2024. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â throsolwg o'r camau nesaf.

Cynnig

Nod SRAs yw sicrhau nad yw gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion yn diodde'n amhriodol oherwydd penderfyniadau cynllunio a chydysnio tymor byr. Mae SRAs yn nodi ardaloedd lle ceir adnoddau naturiol a allai fod â'r potensial i gefnogi defnydd yn y dyfodol gan sectorau morol penodol (y cyfeirir atynt fel 'sectorau ffocws'). Bydd polisi SAF_02 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) yn cael ei gymhwyso i SRAs a nodir. Nod hyn yw sicrhau nad yw datblygiad newydd yn rhwystro'r potensial - mewn ffordd amhriodol a heb ystyriaeth ofalus - i'r sectorau ffocws gyflwyno ceisiadau yn y dyfodol am ganiatâd i leoli gweithgarwch yn yr ardaloedd hyn.

Nid yw nodi SRAs yn golygu y byddai datblygiad yn yr ardaloedd hyn yn cael ei gefnogi nac yn cael ei awdurdodi. Nid yw'n golygu chwaith bod yn rhaid i sector leoli mewn SRA. Bydd angen o hyd i bob datblygwr (p'un a yw'n gofyn am ganiatâd i leoli mewn SRA neu'r tu allan iddi) wneud cais am y caniatâd perthnasol, a fydd yn cynnwys dangos ei fod yn cydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol a pholisïau WNMP ar ddiogelu'r amgylchedd a materion cymdeithasol fel morluniau a threftadaeth forol.

Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn am farn ar SRAs arfaethedig ar gyfer y sector ynni ffrwd lanw. Gofynnwyd i ymatebwyr gyflwyno safbwyntiau ar yr SRAs arfaethedig, y broses fapio a ddefnyddiwyd i nodi'r SRAs, y dystiolaeth ofodol sylfaenol, ac a ddylid nodi SRAs eraill ar gyfer sectorau eraill.

Ymgysylltu

Gofynnwyd am safbwyntiau fel rhan o gyfnod ymgynghori 12 wythnos rhwng 13 Mawrth a 5 Mehefin 2024. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Cafodd y ddolen i'r ymgynghoriad ei hanfon mewn e-bost at amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys rheoleiddwyr, datblygwyr a chynrychiolwyr y diwydiant, awdurdodau cyhoeddus a lleol, sefydliadau addysg uwch a chyrrff anllywodraethol amgylcheddol. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru chwe sesiwn galw heibio ar-lein i ymgysylltu â

rhanddeiliaid ym mis Mawrth, mis Ebrill a mis Mai er mwyn annog y rhai a oedd yn bresennol i ymateb i'r ymgynghoriad ac ateb unrhyw gwestiynau.

Trosolwg o'r ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 19 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd wyth ymateb wedi dod i law trwy'r arolwg ar-lein ac 11 trwy e-bost. Roedd un ymatebydd yn dymuno aros yn ddiennw. Mae rhestr o ymatebwyr ac eithrio'r rhai a oedd yn dymuno aros yn ddiennw i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

Nod y ddogfen hon yw cyflwyno'r safbwyntiau a'r themâu cyffredinol a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, yn hytrach nag adlewyrchu pob ymateb unigol.

Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r adran ganlynol yn manylu ar yr ymatebion a'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â chwestiynau'r ymgynghoriad.

Darparodd dau ymatebydd un ymateb cyffredinol yn hytrach nag atebion ar wahân i'r cwestiynau unigol. Yn yr achosion hyn, lle bo'n ymarferol, rydym wedi nodi'r cwestiwn/cwestiynau y mae pob elfen o'u hymateb yn berthnasol iddo/iddynt.

Nodir bod rhai ymatebwyr wedi gwneud sylwadau sy'n berthnasol i gynllunio morol yn fwy cyffredinol, ond sydd y tu hwnt i gwmpas nodi SRAs posibl a rôl SRAs wrth ddiogelu argaeledd ardaloedd eang o adnoddau yn y dyfodol. Byddwn yn sicrhau bod y sylwadau ehangach hyn yn cael eu cynnwys mewn adolygiad annibynnol sydd ar y gweill o ddulliau cynllunio morol, a'u bod yn cael eu hystyried trwy'r broses honno.

Cwestiwn 1 a oedd ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno SRAs ar gyfer ynni ffrwd lanw.

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno SRAs ar gyfer ynni ffrwd lanw?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno SRAs ar gyfer ynni ffrwd lanw. Mynegwyd cefnogaeth ar gyfer SRAs fel offeryn cynllunio sy'n sicrhau bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar hyn o bryd. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y cyfraniad sylweddol y gall ynni ffrwd lanw ei wneud at gyrraedd targedau sero net ac at economi Cymru. Nododd yr ymatebwyr hyn fod amserlenni hir ar gyfer cydsynio a dechrau defnyddio ynni ffrwd lanw yn golygu bod diogelu argaeledd safleoedd ag adnoddau ffrwd lanw da yn y dyfodol trwy SRAs yn hanfodol er mwyn sicrhau llif iach o brosiectau yn y dyfodol, ac felly mae'n hanfodol i'r diwydiant. Ymhlith y rhesymau eraill a roddwyd am gytuno â'r cynnig oedd y ffaith fod SRAs yn darparu mwy o eglurder ynghylch ardaloedd allweddol sydd â'r potensial i gael eu defnyddio yn y dyfodol. Er bod y mater hwn y tu allan i gwmpas yr SRAs, nododd yr ymatebwyr y bydd hyn yn helpu i sicrhau ystyriaeth ehangach o leoliadau a lefelau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiad, gan gefnogi gwaith rheoli integredig o'r ardal forol (yn hytrach na bod penderfyniadau ar ddatblygiadau neu sectorau unigol yn cael eu gwneud ar wahân).

Er yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno SRAs ar gyfer prosiectau ynni ffrwd lanw, roedd nifer fach o ymatebwyr eisiau gweld mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i effeithiau ar forluniau a dynodiadau amgylcheddol o fewn prosesau mapio SRAs a'r Hysbysiad Cynllunio Morol (MPN). Awgrymodd un ymateb, gan nodi'r gydberthynas rhwng yr SRAs posibl ac ardaloedd amgylcheddol sensitif, gan gynnwys safleoedd dynodedig, y dylai'r MPN gynnwys testun yn ymwneud â gofynion a chyfyngiadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dynodiadau amgylcheddol. Hefyd, roedd yr ymateb hwn yn argymhell y dylai SRAs gael eu hadolygu a'u diweddarau yn unol â datblygiadau technolegol, er mwyn sicrhau nad yw polisi cynllunio yn cyfyngu ar leoli safleoedd ynni ffrwd lanw i ffrwd o'r ardaloedd mwyaf amgylcheddol sensitif, lle bo hynny'n ymarferol yn dechnegol.

Roedd dau ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig i gyflwyno SRAs ar gyfer ynni ffrwd lanw. Roedd y rhesymau dros anghytuno yn ymwneud yn bennaf ag awydd i roi mwy o ystyriaeth i sensitifrwydd morluniau ac effeithiau gweledol ar dirweddau gwarchodedig, a phryderon am ddadleoli pysgodfeydd gan ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Ni wnaeth dau ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.

Gofynnodd **Cwestiwn 2** a oedd ymatebwyr yn cytuno â'r cyfyngiadau gofodol sydd wedi'u defnyddio wrth nodi SRAs ynni ffrwd lanw arfaethedig.

2. Ydych chi'n cytuno â'r cyfyngiadau gofodol sydd wedi'u defnyddio wrth nodi SRAs ynni ffrwd lanw arfaethedig?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfyngiadau gofodol (cyfyngiadau technegol, a chyfyngiadau caled fel seilwaith presennol ac Ardaloedd Perygl ac

Ymarfer y Weinyddiaeth Amddiffyn) sydd wedi'u defnyddio wrth fapio'r SRAs posibl ar gyfer ynni ffrwd lanw, gan nodi eu bod yn briodol ac yn rhesymol. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod yr SRAs wedi'u mapio yn unol â'r darpariaethau yn yr WNMP a bod y cyfyngiadau gofodol a mapio wedi'u datblygu a'u cytuno ar sail ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid. Cafwyd cefnogaeth hefyd i gyflwyno cyfyngiadau meddal (megis cyfyngiadau amgylcheddol a buddiannau mordwyo morwrol amddiffyn) fel tystiolaeth ategol ochr yn ochr ag SRAs, ond i beidio â'u defnyddio i nodi ffiniau SRA. Roedd ymatebwyr o'r farn bod angen ystyried y materion hyn wrth geisio cael caniatâd ar gyfer prosiectau unigol (gan nodi y dylid ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar gynigion sy'n ymwneud â buddiannau mordwyo morwrol amddiffyn posibl). Hefyd, nododd yr ymatebwyr fod y dull gweithredu hwn yn sicrhau bod modd adlewyrchu tystiolaeth a dealltwriaeth newydd, gan sicrhau bod cynllunio a phenderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Er yn cydnabod bod y mater hwn y tu hwnt i gwmpas SRAs, nododd un ymatebydd bwysigrwydd ystyried effeithiau cronus datblygiadau lluosog a deall sawl datblygiad sy'n gallu digwydd oddi mewn i drothwyon ecolegol.

Nododd nifer o ymatebwyr fod ffiniau'r SRAs arfaethedig yn gorgyffwrdd ag ardaloedd amgylcheddol sensitif, gan gynnwys gorgyffwrdd o amgylch Sir Benfro ac Ynys Môn gydag ardaloedd chwilio ar gyfer dynodiad Parth Cadwraeth Morol posibl. Nododd a chroesawodd yr ymatebwyr hyn destun yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol drafft sy'n nodi na fydd SRAs yn gwrthdaro â dynodi a rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAs).

Cafwyd rhai sylwadau penodol gan un ymatebydd yn ymwneud â chyfyngiadau technegol mewn perthynas â'r SRA arfaethedig yn Ne Cymru a'r her dechnegol sy'n deillio o swbstrad caled. Hefyd, fe wnaeth yr ymatebydd hwn drafod cyfyngiadau caled posibl yn ymwneud â ffactorau fel gorsafoedd pŵer niwclear a chysylltedd grid.

Nododd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd adolygu a diweddarau SRAs a mapio cyfyngiadau cysylltiedig, wrth i dystiolaeth a dealltwriaeth ddatblygu. Nododd un ymatebydd bwysigrwydd negeseuon clir a chyson er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall rôl a diben yr SRAs, tra bod ymatebydd arall wedi nodi ei bod yn bwysig bod datblygwyr a phenderfynwyr yn cymhwyso polisi diogelu yn ymwneud ag SRAs mewn ffordd gadarn a chyson.

Er nad yn anghytuno'n benodol, roedd dau ymatebydd yn teimlo bod angen rhoi mwy o ystyriaeth wrth fapio SRAs i gyfyngiadau yn ymwneud â gweithgarwch morgludiant a diogelwch mordwyo, cysylltedd grid, sensitifrwydd morluniau ac effeithiau gweledol ar dirweddau gwarchoddedig. Roedd dau ymatebydd arall yn anghytuno'n benodol â chyfyngiadau gofodol sydd wedi'u defnyddio i fapio'r SRAs arfaethedig. Roedd un o'r rhain yn credu y dylid ystyried sensitifrwydd amgylcheddol, gan gynnwys sensitifrwydd morluniau ac effeithiau gweledol ar dirweddau gwarchoddedig, wrth nodi SRAs. Roedd yr ymatebydd arall yn credu bod angen ystyried ardaloedd sy'n bwysig i bysgodfeydd, a mynegodd bryderon am ddadleoli gweithgarwch pysgodfeydd. Ni wnaeth tri ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.

Roedd **Cwestiwn 3** yn gofyn a oedd ymatebwyr yn cytuno â ffiniau arfaethedig yr SRAs ynni ffrwd lanw.

3. Ydych chi'n cytuno â ffiniau arfaethedig yr SRAs ynni ffrwd lanw?

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â ffiniau arfaethedig yr SRAs ynni ffrwd lanw. Roedd yr ymatebion yn cydnabod yr ymgysylltu â rhanddeiliaid helaeth a gwblhawyd er mwyn datblygu'r SRAs arfaethedig. Nododd un ymateb fod ffiniau'r SRAs arfaethedig wedi cael eu hystyried yn dda a'u bod yn sicrhau cydbwysedd rhwng argaeledd adnoddau a chyfyngiadau caled. Nododd ymateb arall fod cysylltedd grid yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd oddi mewn i'r SRAs arfaethedig, ond serch hynny, roedd o blaid eu cynnwys oherwydd eu potensial mwy hirdymor i gefnogi gweithgarwch y sector.

Nododd nifer o ymatebwyr fod ffiniau'r SRAs arfaethedig yn gorgyffwrdd ag ardaloedd amgylcheddol sensitif, gan gynnwys gorgyffwrdd o amgylch Sir Benfro ac Ynys Môn gydag ardaloedd chwilio ar gyfer dynodiad Parth Cadwraeth Morol posibl. Nododd a chroesawodd yr ymatebwyr hyn destun yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol drafft sy'n nodi na fydd SRAs yn gwrthdaro â dynodi a rheoli MPAs.

Hefyd, nododd nifer o ymatebion bwysigrwydd parhau i adolygu'r dystiolaeth a ddefnyddir i fapio'r SRAs, a'i diweddarau yn ôl yr angen. Nododd un ymateb gysondeb cyffredinol rhwng yr SRAs arfaethedig a rhaglen Gwely'r Môr Cyfan Ystad y Goron o safbwynt mapio ardaloedd lle mae cyfleoedd posibl ar gyfer ynni ffrwd lanw. Nododd yr ymateb hwn fod ffocws Gwely'r Môr Cyfan ar fapio cyfleoedd datblygu – tra bod yr SRAs yn mapio ac yn diogelu argaeledd ardaloedd adnoddau eang – gan arwain weithiau at rai gwahaniaethau bach mewn ardaloedd a nodir.

Roedd un ymatebydd yn teimlo na allai wneud sylw ar briodoldeb ffiniau arfaethedig yr SRAs, gan ei fod yn credu bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i sensitifrwydd morluniau ac effeithiau gweledol ar dirweddau gwarchoddedig. Roedd dau ymatebydd arall yn anghytuno â ffiniau arfaethedig yr SRAs. Ni roddodd yr un o'r ymatebwyr hyn resymau penodol dros eu hymateb, er i un ymatebydd awgrymu y gallai SRAs gael eu lleoli ymhellach oddi ar y lan, lle gallai dyfeisiau mwy o ran maint a chapasiti cynhyrchu ynni ffrwd lanw uwch fod yn ddichonadwy yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae atebion yr ymatebwyr hyn i gwestiynau eraill yn nodi pryderon am sensitifrwydd amgylcheddol a morluniau, cysylltedd grid a'r posibilrwydd o ddadleoli gweithgarwch pysgodfeydd. Ni wnaeth pum ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.

Gofynnodd **Cwestiwn 4** i'r ymatebwyr am unrhyw dystiolaeth ofodol ychwanegol a ddylai fod ar gael i helpu i ddeall cyfyngiadau a chyfleoedd perthnasol ar gyfer pob SRA.

4. Ydych chi'n gwybod am unrhyw dystiolaeth ofodol ychwanegol a ddylai fod ar gael ar Borthol Cynllunio Morol Cymru i helpu defnyddwyr i ddeall cyfyngiadau a chyfleoedd perthnasol ar gyfer pob SRA?

Ymatebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, ac fe gafwyd pedwar ymateb 'dim', a phedwar ymateb arall yn cytuno â'r dystiolaeth ofodol a

ddefnyddiwyd heb wneud unrhyw awgrymiadau eraill. Cyflwynodd gweddill yr ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer tystiolaeth ofodol ychwanegol, gan ganolbwyntio ar gysylltedd grid, sensitifrwydd morluniau ac effeithiau gweledol ar dirweddau, gweithgarwch morgludiant a physgodfeydd, bathymetreg a thystiolaeth amgylcheddol (gan gynnwys data monitro ac asesu safleoedd o brosiectau ynni ffrwd lanw blaenorol, tystiolaeth yn ymwneud ag effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd a data ar deulu'r morfil). Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd adolygu a diweddarau tystiolaeth sylfaenol a data cyd-destunol yn rheolaidd. Roedd y ffynonellau tystiolaeth penodol a nodwyd yn cynnwys prosiect Cynllunio Gofodol Morol i Fynd i'r afael ag Effeithiau Hinsawdd (MSPACE) dan arweiniad Labordy Gofodol Morol Plymouth, gwaith mapio ystyriaethau amgylcheddol gan CNC a data morgludiant wedi'i gynhyrchu gan System Adnabod Awtomatig (AIS) a data pysgodfeydd System Fonitro Cychod y Glannau (iVMS).

Gofynnodd **Cwestiwn 5** i'r ymatebwyr a ddylai SRAs posibl gael eu datblygu ar gyfer sectorau eraill.

5. Ydych chi'n credu y dylai SRAs posibl gael eu datblygu a'u cynnig i ymgynghori arnynt ar gyfer sectorau eraill?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i ddatblygu SRAs ar gyfer sectorau eraill, gan gyfeirio at sectorau fel ynni'r tonnau, ynni amrediad llanw, ffermydd gwynt arnofiol ar y môr, agregau morol, dyframaethu a morgludiant. Roedd y rhesymau dros gefnogi'r cynnig i ddatblygu SRAs ar gyfer sectorau eraill yn cynnwys rôl yr SRAs wrth ddarparu mwy o eglurder ar ardaloedd allweddol sydd â photensial i'w defnyddio yn y dyfodol, a fyddai'n ategu gwaith ehangach i ystyried lleoliadau a lefelau lle byddai datblygu yn fwyaf cynaliadwy ac yn cynorthwyo cydgysylltiad gofodol â chylchoedd prydlesu Ystad y Goron. Hefyd, nododd yr ymatebwyr gyfraniad SRAs o ran hyrwyddo deialog rhwng sectorau ar ddefnyddio adnoddau a chydfodoli yn y dyfodol.

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at sensitifrwydd morluniau a thirweddau arfordir Cymru a phwysigrwydd sicrhau bod dynodiadau amgylcheddol a sensitifrwydd morluniau yn cael eu hadlewyrchu'n briodol mewn unrhyw waith mapio SRA yn y dyfodol. Hefyd, cyfeiriodd un ymateb at bwysigrwydd sicrhau bod gan SRAs ffocws priodol ac nad ydynt yn ymestyn dros ardal amhriodol o eang, er mwyn iddynt fod yn effeithiol. Roedd yr ymatebydd hwn o'r farn ei bod yn bwysig ystyried yn iawn yr angen a'r cyfiawnhad dros ddiogelu adnoddau drwy SRAs, ac yn credu ei bod yn bwysig mabwysiadu agwedd hirdymor at y mater hwn.

Dim ond un ymatebydd a oedd yn anghytuno â datblygu SRAs eraill, gan gyfeirio at ymatebion i gwestiynau cynharach, a oedd yn mynegi pryderon am ddiffyg data ar ardaloedd sy'n bwysig ar gyfer gweithgarwch pysgodfeydd a dadleoli pysgodfeydd oherwydd datblygiadau ynni adnewyddadwy. Ni wnaeth tri ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.

Roedd **Cwestiwn 6** yn rhoi cyfle i ymatebwyr wneud sylwadau ar ganfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd o waith mapio SRAs.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ganfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd o waith mapio SRAs?

Derbyniwyd pum ymateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd pedwar ohonynt yn cefnogi canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn benodol. Roedd un ymateb yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar yr SRAs arfaethedig ar gyfer un sector yn y lle cyntaf. Roedd hwn yn ddewis amgen rhesymol a nodwyd gan yr Arfarniad Cynaliadwyedd, gyda'r nod o ddeall sut mae SRAs yn gallu sicrhau'r manteision gorau cyn - os yw'n berthnasol ac yn briodol - cynnig cyfres ehangach o SRAs ar gyfer sectorau eraill. Roedd yr ymateb hwn hefyd yn argymhell y dylid defnyddio'r Arfarniad Cynaliadwyedd i lywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau ar gyflwyno SRAs. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn anghytuno â chanfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd, gan nodi pryderon am argaeledd data ar ardaloedd sy'n bwysig ar gyfer gweithgarwch pysgodfeydd a dadleoli pysgodfeydd oherwydd datblygiadau ynni ffrwd lanw. Ni wnaeth yr ymatebwyr eraill ateb y cwestiwn hwn, neu fe wnaethant nodi nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau.

Gofynnodd **Cwestiwn 7** i'r ymatebwyr ystyried effeithiau tebygol cyflwyno SRAs ar yr iaith Gymraeg.

7. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol cyflwyno SRAs ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn, neu fe wnaethant nodi nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau. O'r rhai a ymatebodd, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan. Er bod y mater hwn y tu allan i gwmpas SRAs eu hunain, roedd yr ymatebion hyn yn dangos potensial ynni ffrwd lanw i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a manteision lleol eraill ar gyfer cymunedau arfordirol a Chymraeg. Y tu hwnt i sylw cyffredinol yn ymwneud â phwysigrwydd trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, nid oedd unrhyw ymateb yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno SRAs.

Gofynnodd **Cwestiwn 8** i'r ymatebwyr ystyried a fyddai unrhyw newidiadau i'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn gwella effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg ac yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

8. Yn eich barn chi, a oes modd llunio neu newid y broses o gyflwyno SRAs er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ymatebodd dau ymatebydd i'r cwestiwn hwn. Roedd y ddau sylw yn gadarnhaol, gan ailadrodd sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol (cwestiwn 7) yn ymwneud â thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a photensial ynni ffrwd lanw i sicrhau manteision cymunedol a chyflogaeth cadarnhaol.

Roedd **Cwestiwn 9** yn rhoi cyfle i ymatebwyr godi unrhyw faterion cysylltiedig.

9. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Cyflwynodd saith o'r 19 ymatebydd sylwadau ychwanegol, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cefnogi'r SRAs arfaethedig. Nododd nifer o ymatebion bwysigrwydd datblygu canllawiau clir ar weithredu SRAs. Nododd un ymatebydd bwysigrwydd adolygu a diweddarau SRAs, wrth i dystiolaeth a dealltwriaeth ddatblygu. Cyfeiriodd ymateb arall at y sylfaen dystiolaeth sy'n cael ei datblygu gan raglen Gwely'r Môr Cyfan Ystad y Goron.

Er bod hyn y tu allan i gwmpas SRAs, trafododd un ymatebydd arwyddocâd twristiaeth i economi'r arfordir gan nodi effaith bosibl dyfeisiau ynni ffrwd lanw ar yr amgylchedd morol ac ar forluniau a thirweddau dynodedig. Galwodd yr ymatebydd hwn am ddysgu gwersi o brosiectau peilot ynni ffrwd lanw blaenorol, gan nodi pwysigrwydd datgomisiynu ac adfer seilwaith. Awgrymodd fod angen cyfeirio at hyn yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol. Hefyd, awgrymodd yr ymatebydd y gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio at berchnogaeth gymunedol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol.

Cyfeiriodd dau ymatebydd at gyfyngiadau amgylcheddol. Cadarnhaodd yr ymatebwyr hyn eu bod o blaid diogelu adnoddau trwy SRAs, ond gan bwysleisio pwysigrwydd ystyried cyfyngiadau amgylcheddol wrth gydsynio i brosiectau. Hefyd, fe wnaethant nodi bod sensitifrwydd amgylcheddol yn golygu na fydd modd bwrw ymlaen â gweithgaredd mewn rhai amgylchiadau. Croesawodd yr ymatebwyr hyn y testun yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol drafft yn ymwneud â chyfyngiadau amgylcheddol a'r gofyniad i gymhwyso pob rheoliad amgylcheddol a pholisi amgylcheddol WNMP i bob cynnig a gyflwynir oddi mewn i SRA neu'r tu allan i SRA. Roeddent hefyd yn croesawu testun sy'n nodi na fydd SRAs yn gwrthdaro â dynodi a rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Ochr yn ochr â'r sylwadau cefnogol hyn, mynegodd un ymatebydd bryderon yn ymwneud â'r posibilrwydd o bysgodfeydd yn cael eu dadleoli gan ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ac effeithiau amgylcheddol posibl seilwaith gwynt ar y môr a cheblau cysylltiedig. Er bod y mater hwn y tu allan i gwmpas SRAs a'r ymgynghoriad hwn, galwodd yr ymatebydd hwn am i'r llywodraeth roi mwy o sylw i'r posibilrwydd o bysgodfeydd yn cael eu dadleoli gan ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.

Casgliad

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau sy'n berthnasol i gynllunio morol yn fwy cyffredinol, ond sydd y tu hwnt i gwmpas nodi SRAs posibl a rôl SRAs wrth ddiogelu argaeledd ardaloedd adnoddau yn y dyfodol. Byddwn yn sicrhau bod y sylwadau ehangach hyn yn cael eu cynnwys mewn adolygiad annibynnol sydd ar y gweill o ddulliau cynllunio morol, a'u bod yn cael eu hystyried trwy'r broses honno.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd yn cefnogi'r SRAs sy'n cael eu cynnig ar gyfer ynni ffrwd lanw a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i fapio'r SRAs hyn. Nododd yr ymatebwyr botensial ynni ffrwd lanw i chwarae rhan allweddol yn y broses o drosglwyddo i ynni adnewyddadwy a sero net a phwysigrwydd diogelu argaeledd ardaloedd adnoddau allweddol trwy SRAs er mwyn sicrhau llif iach o brosiectau yn y dyfodol. Hefyd, cyfeiriodd yr ymatebwyr at rôl SRAs o ran darparu eglurder yn ymwneud ag ardaloedd allweddol o adnoddau ffrwd lanw, hwyluso deialog rhwng sectorau a helpu i sicrhau bod anghenion adnoddau'r dyfodol yn cael eu hystyried mewn gwaith cynllunio a phenderfyniadau. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn croesawu'r SRAs arfaethedig fel elfen bwysig o newid ehangach tuag at gynllunio gofodol integredig. Serch y croeso hwn, nodwyd bod angen gwneud rhagor o waith - y tu hwnt i gwmpas SRAs - i ddeall capasiti llwyth a'r lleoliadau a'r lefelau lle byddai datblygiadau yn fwyaf cynaliadwy.

Hefyd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid datblygu SRAs eraill ar gyfer sectorau eraill (gan gyfeirio at dechnolegau ynni adnewyddadwy eraill, agregau morol a dyframaethu), gan nodi pwysigrwydd cyflwyno SRAs yn effeithiol, wedi'u hategu gan ganllawiau clir. Nododd rhai ymatebwyr bwysigrwydd adolygu a, lle bo'n berthnasol, diweddarau SRAs a mapiau cyfyngiadau cysylltiedig, wrth i dystiolaeth a dealltwriaeth ddatblygu. Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r fethodoleg fapio a'r cyfyngiadau gofodol a ddefnyddiwyd i nodi SRAs, cafwyd nifer o sylwadau ar ffactorau sydd angen mwy o ystyriaeth ym marn ymatebwyr, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer ffynonellau ychwanegol o dystiolaeth ofodol.

Daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg yn y sylwadau i'r ymgynghoriad. Gan fod SRAs yn diogelu argaeledd ardaloedd adnoddau eang yn y dyfodol ond nad ydynt yn asesu addasrwydd nac yn darparu cymorth ar gyfer datblygiadau, mae llawer o'r materion hyn (er eu bod yn berthnasol ac yn bwysig iawn i gynllunio morol yn ehangach) y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Yn benodol, galwodd nifer o ymatebwyr am roi mwy o ystyriaeth i sensitifrwydd morluniau ac effeithiau gweledol ar dirweddau gwarchoddedig. Roedd nifer fach o ymatebion yn anghytuno â'r SRAs arfaethedig am y rheswm hwn. Yn gysylltiedig â hyn, nododd nifer o ymatebwyr fod cysylltedd grid yn ystyriaeth allweddol a bod modd rhoi mwy o amlygrwydd i'r mater hwn neu ei ddefnyddio i nodi ffiniau SRAs. Thema gyffredin arall oedd sylwadau ar gyfyngiadau a sensitifrwydd amgylcheddol, gyda'r ymatebwyr yn nodi gorgyffwrdd posibl rhwng yr SRAs arfaethedig ac ardaloedd amgylcheddol sensitif, gan gynnwys safleoedd dynodedig ac ardaloedd chwilio ar gyfer dynodiadau Parth Cadwraeth Morol posibl. Roedd nifer o ymatebwyr am i'r MPN gynnwys mwy o wybodaeth am ddynodiadau a sensitifrwydd amgylcheddol perthnasol, ac mewn rhai achosion,

roedd ymatebwyr am i gyfyngiadau amgylcheddol gael eu defnyddio wrth fapio ffiniau SRAs.

Cyflwynodd nifer o ymatebwyr sylwadau ar gyfyngiadau penodol, megis buddiannau amddiffyn neu bwysigrwydd diogelwch mordwyo a llwybrau morgludiant prysur. Cyflwynodd ymatebydd arall sylwadau penodol ar gyfyngiadau technegol mewn perthynas â'r SRA De Cymru arfaethedig. Nodir hefyd fod un ymateb yn anghytuno'n gyson â'r SRAs arfaethedig, gan ofyn am roi mwy o ystyriaeth i fuddiannau pysgodfeydd, a nodi diffyg tystiolaeth yn ymwneud ag ardaloedd sy'n bwysig i bysgodfeydd a phryderon am bysgodfeydd yn cael eu dadleoli gan ddatblygiadau ynni adnewyddadwy morol. Unwaith eto, mae'r mater hwn yn berthnasol i gynllunio morol yn fwy cyffredinol, ond mae tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn ar SRAs.

Camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gofynnwyd am adborth ar yr SRAs arfaethedig ar gyfer ynni ffrwd lanw, ynghyd â sylwadau ar y fethodoleg fapio a ddefnyddiwyd. Gofynnwyd hefyd am adborth ar a ddylid datblygu unrhyw SRAs eraill ar gyfer sectorau eraill.

Cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau sy'n berthnasol i gynllunio morol yn fwy cyffredinol, ond sydd y tu hwnt i gwmpas nodi SRAs posibl a rôl SRAs wrth ddiogelu argaeledd ardaloedd adnoddau eang yn y dyfodol. Yn benodol, roedd y sylwadau hyn yn ymwneud â:

- chysylltedd grid (ynghyd â deall effaith safleoedd lle mae ceblau'n dod i'r lan a llwybrau ceblau);
- deall ac asesu effeithiau gweledol datblygiadau ynni ffrwd lanw ar forluniau a thirweddau dynodedig
- ystyried effaith ynni ffrwd lanw ar sensitifrwydd amgylcheddol ac ardaloedd dynodedig fel Ardaloedd Morol Gwarchodedig; a
- datblygu dealltwriaeth o ardaloedd pysgodfeydd pwysig a'r posibilrwydd y bydd pysgodfeydd yn cael eu dadleoli gan ddatblygu ynni adnewyddadwy.

Gan fod SRAs yn diogelu argaeledd ardaloedd adnoddau eang yn y dyfodol ond nad ydynt yn asesu addasrwydd nac yn darparu cymorth ar gyfer datblygiadau, mae'r materion hyn (er eu bod yn berthnasol ac yn bwysig iawn i gynllunio morol yn ehangach) y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Byddwn yn sicrhau bod y sylwadau ehangach hyn yn cael eu cynnwys mewn adolygiad annibynnol sydd ar y gweill o ddulliau cynllunio morol, a'u bod yn cael eu hystyried trwy'r broses honno.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gwblhau'r Hysbysiad Cynllunio Morol (MPN) a'r SRAs cysylltiedig ar gyfer ynni ffrwd lanw. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i fwrw ati â gwaith sy'n gwella penodolrwydd gofodol yn ein fframwaith cynllunio morol. Fel rhan o'n dull cydweithredol, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a'r rhai sy'n gwneud

penderfyniadau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno SRAs, gan gynnwys datblygu canllawiau gweithredu clir. Er nad yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar asesu'r effeithiau ar forluniau a'r amgylchedd o fewn cwmpas SRAs diogelu adnoddau, rydym yn cydnabod bod y ffactorau hyn yn hynod arwyddocaol a bod yn rhaid eu hystyried yn llawn ar lefel prosiect. Felly, dylid rhoi blaenoriaeth a sylw priodol iddynt wrth ddatblygu prosiectau a chydysnio iddynt, ac rydym yn nodi sylwadau ar bwysigrwydd nodi hyn yn benodol. Byddwn yn sicrhau bod ystyriaethau pwysig ar lefel prosiect yn cael eu nodi'n glir yn yr MPN a'r canllawiau gweithredu. Yn unol â'n rhwymedigaeth o dan adran 54 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir i barhau i adolygu nodweddion ffisegol, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ein moroedd a'u hadnoddau naturiol, byddwn yn datblygu cyfeiriadur pwrpasol o ddata gofodol perthnasol sy'n ymwneud â materion cymdeithasol ac amgylcheddol ac yn cyfeirio ato'n glir yn yr MPN. Ein nod yw datblygu'r gwaith hwn a chyhoeddi'r MPN yn cyflwyno'r SRAs cyntaf ar gyfer ynni ffrwd lanw erbyn diwedd 2024.

Hefyd, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion ar gyfer SRAs eraill ar gyfer sectorau eraill, lle mae cynllunio ar gyfer diogelu adnoddau hirdymor yn gallu ychwanegu gwerth trwy nodi ardaloedd adnoddau allweddol a diogelu eu hargaeledd. Yn benodol, byddwn yn ystyried yn gyntaf fanteision datblygu ac ymgynghori ar SRAs ar gyfer ffermydd gwynt arnofiol ar y môr ac agregau morol, sef sectorau lle mae modd i ni ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth i fapio ardaloedd adnoddau sydd â ffocws ac sydd ar wahân ar gyfer SRAs posibl. Mae cyflymu'r broses o ddatblygu ffermydd gwynt arnofiol ar y môr yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch ynni a chyrraedd targedau sero net, tra bod datblygu ynni adnewyddadwy a diogelwch ynni, tai, seilwaith a'r economi i gyd yn dibynnu ar gyflenwad diogel o agregau ar gyfer deunyddiau adeiladu.

Hefyd, rydym yn cytuno bod yna fanteision i ddilyn y dull SRA ar gyfer sectorau fel ynni'r tonnau, amrediad llanw a dyframaethu. Fodd bynnag, nid yw'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer y sectorau hyn yn ddigonol i'n galluogi i nodi SRAs â ffocws ac sydd wedi'u targedu. Fel y pwysleisiwyd gan ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, heb ddigon o ffocws, mae yna berygl sylweddol y bydd SRAs yn methu â sicrhau manteision ac yn troi'n ymarferion ticio bocsys. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu dealltwriaeth well o anghenion adnoddau a gofodol y sectorau hyn, gan ein galluogi i ddatblygu gwaith i ddiffinio'n well ardaloedd adnoddau lle gallai fod yn fuddiol defnyddio'r dull SRA. Yn benodol, fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, rydym wedi ymrwymo i ymgynghori â'n rhanddeiliaid dyframaethu ar gynigion a fyddai'n ein galluogi i chwilio am SRAs posibl ar gyfer y sector hwn.

Rhestr o'r ymatebwyr¹

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain
- Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Menter Môn Morlais Cyf
- Royal Yachting Association
- Seas the Opportunity
- Sefydliad Seilwaith Amddiffyn, Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- UK Chamber of Shipping
- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
- Ynni Môr Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Ystad y Goron

¹Dylid nodi nad rhestr gynhwysfawr o ymatebwyr yw hon, a'i bod ond yn cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn dymuno i'w hymateb aros yn ddiennw.